HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YR ASB – RHOI GWYBOD AM BROBLEM GYDA BWYD

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gweithredu fel 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam fod angen yr wybodaeth hon?

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn rhannu'ch manylion ag awdurdodau lleol fel y gallant ymchwilio i'r broblem fwyd yr ydych chi wedi'i rhoi gwybod amdani.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gefnogi awdurdodau lleol, ac yn unol â'n polisi cadw, yr ydym ni'n cadw gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn golygu y bydd yr wybodaeth a gyflwynir gennych yn cael ei rhannu â'r awdurdod lleol. Yna, caiff eich manylion personol eu dileu o'n cofnodion a'u cadw gan yr awdurdod lleol cyhyd ag y mae ei hangen arnynt yn unig.

Mae'r data personol yr ydym yn ei brosesu wedi'i leoli ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

Cafodd ein gwasanaethau cwmwl eu caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hasesu yn erbyn egwyddorion y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Er mwyn cynnal y gwasanaeth hwn, gall trydydd partïon gael mynediad at yr wybodaeth gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal gwasanaethau digidol yr ASB.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych yr hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth yr ydym yn ei phrosesu amdanoch yn anghywir, gallwch wneud cais i'w chywiro. Os hoffech wneud cwyn am y ffordd yr ydym ni wedi trin eich data personol, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@foodstandards.gsi.gov.uk